**Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Celfyddydau ac Iechyd**
**Lleoliad**: Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd
**Dyddiad**: 6ed Gorffennaf 2017
**Amser: 12-2pm**

**Cadeirydd:** Eluned Morgan AC

**Yn bresennol:**
Tracy Evans, *Rheolwr Inside Out Cymru*
Angela Rogers, *Engage Cymru*
Alex Bowen, *Cyfarwyddwr Celfyddydau Cymuned Cwm a Bro*
Andrea Davies, *Cydlynydd Prosiectau y Celfyddydau mewn Iechyd a Lles, Betsi Cadwaladr*
Claire Cressey, *Cyfarwyddwr Cerddoriaeth Fyw Nawr Cymru*
Trevor Whymark, *Grŵp Datblygu Grŵp Gofal Llesiant*
Prue Thimbleby, *Cydlynydd Celfyddydau ABM*
Elena Schmitz, *Pennaeth Rhaglenni Llenyddiaeth Cymru*
Sian Thomas, *Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio Cyngor Celfyddydau Cymru*
Sally Lewis, *Rheolwr Portffolio Cyngor Celfyddydau Cymru*
Carol Hiles, *Y Brifysgol Agored, De Cymru*
Victoria Jones, *Cydlynydd Rhwydwaith Addysg Celfyddydau Cymru*
Gareth Coles, *Cyfarwyddwr Celfyddydau Gwirfoddol Cymru*
Tim Jenkins, *Rheolwr Polisi Celfyddydau Llywodraeth Cymru*
Annie Dayson, *Rheolwr Nawdd Theatr Clwyd*
Phil George, *Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru*
Kirsty Keenan, *Swyddfa Eluned Morgan AC*

Croesawodd Eluned Morgan bawb i'r cyfarfod a dosbarthodd gofnodion y cyfarfod diwethaf.

Gofynnwyd i'r rhai oedd yn bresennol gyflwyno'u hunain. Aeth EM ymlaen i gyflwyno rôl y Grŵp Trawsbleidiol hyd yn hyn, gan nodi'r ymrwymiad enfawr o ochr celfyddydau Llywodraeth Cymru. Dywedodd EM fod rhestr o amcanion y Grŵp Trawsbleidiol wedi'i sefydlu o'r blaen ond fod angen crisialu'r pwyntiau hyn yn awr a rhoi ffocws iddynt, a datblygu dull 'Cymru gyfan'. Bydd Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Lles a Chwaraeon a Dai Lloyd, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn ymuno â'r cyfarfod yn ddiweddarach.

**Cadw tŷ**

Mae EM yn cynnig yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC yn Is-Gadeirydd a derbynnir hyn yn syth. Gwneir Jane Bryant AC yn ysgrifennydd ffurfiol.

Mae EM yn rhoi manylion yr hyn sydd wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf ac yn cynnig cynnal y cyfarfod nesaf ar 21ain Medi fel Grŵp ar y Cyd gyda'r Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Dementia. Mae'r rhai sy'n bresennol yn cytuno â hyn.

Mae'r adroddiad y cyfeiriodd yr Arglwydd Alan Howarth ato yn y cyfarfod diwethaf wedi cael ei ohirio oherwydd yr Etholiad Cyffredinol a bydd nawr yn cael ei gyhoeddi ar 19eg Gorffennaf. Mae cyfle i fynychu'r digwyddiad yn Nhŷ'r Cyffredin.

**Agenda**

**Sbardunau Allweddol y Grŵp Celfyddydau ac Iechyd fel y'u cynigir ar yr Agenda:**

- Annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun i ehangu'r gwaith Celfyddydau ac Iechyd sy'n cael ei wneud yng Nghymru ar hyn o bryd

- Sicrhau dull Cymru gyfan o ymdrin â’r Celfyddydau ac Iechyd drwy ddatblygu fframwaith strategol i Gymru ar y Celfyddydau ac Iechyd, gan ddirprwyo'r ddarpariaeth i gyrff priodol ac annog datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Chydffederasiwn y GIG

- Argyhoeddi Llywodraeth Cymru i gomisiynu a chyllido adolygiad o dystiolaeth feintiol ac ansoddol o effaith y Celfyddydau ac Iechyd er mwyn profi'r gosodiad y byddai mwy o arian yn arwain at arbedion sylweddol i GIG Cymru, yn cynnwys llai o aildderbyn cleifion i’r ysbyty

Mae EM yn awgrymu trafodaeth ar sbardunau allweddol y Grŵp Celfyddydau ac Iechyd, gan gyfeirio at y tri phwynt ar yr agenda (a gopïwyd uchod) a'r ddogfen weledigaeth a gynhyrchwyd o'r blaen. Mae Prue Thimbleby (PT) yn awgrymu ychwanegu hyfforddiant fel pwynt ychwanegol.

Mae Phil George (PG) yn nodi mai'r prif nod yw ehangu cyfraniad y celfyddydau i iechyd, a’r effaith ar iechyd. Mae'n nodi ail amcan y grŵp, gan ddweud ei bod yn dda i Gymru gael un cynghrair i’r celfyddydau ac iechyd, fel sydd wedi digwydd yn Lloegr, fel nad yw pethau’n mynd yn ddarniog. Teimlai ei gydweithwyr yn y byrddau iechyd y byddai'n bwerus cael Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a chydffederasiwn y GIG. Mae angen cysondeb ar draws y byrddau iechyd.

Cyhoeddir ymarferiad mapio mawr o'r gweithgarwch presennol (o dan ofal Sally Lewis) yn ddiweddarach y mis hwn a chaiff ei anfon at y ddau Ysgrifennydd Cabinet perthnasol. Mae PG yn awyddus iawn i Vaughan Gething AC ymrwymo (gyda Ken Skates) i gomisiynu adolygiad ar raddfa synhwyrol, wedi’i ariannu'n rhesymol, i effaith y celfyddydau ac iechyd – o safbwynt ansoddol a meintiol.

Mae EM yn gwahodd PT i siarad ar ei phrofiad diweddar yng Nghynhadledd Bryste, yn ymwneud â bylchau mewn ymchwil megis lles a chadw staff.

**Mae EM yn gofyn i'r rhai sy'n bresennol gyfrannu at ymchwil Cyngor y Celfyddydau, yn enwedig o ran dadansoddi effaith.**

Mae Sally Lewis (SL) yn bwydo'n ôl ar yr ymchwil hyd yn hyn, gan fanylu ar ymateb da gan sector y celfyddydau fel y byddid yn disgwyl, ond yn cydnabod rhwydweithiau llai datblygedig yn y sector iechyd. Mae'n trafod ehangu’r prosiect ac yn cydnabod yr amrywiaeth ymarfer sy'n dod drwodd. Mae'r Gweinidog Iechyd yn ymwybodol o'r ymchwil hwn.

Awgrymir y gellid ehangu'r gwaith i ystyried materion megis cadw staff a lles. Mae'r rhai sy'n bresennol yn trafod meysydd datblygu a hyfforddi pellach, perthnasoedd â staff a'r lle i artistiaid o fewn Bwrdd Iechyd. Gofynnwyd cwestiynau megis 'Sut mae artist da yn cael ei adnabod? Beth yw’r dystiolaeth?' gan arwain at gyfraniadau pellach gan aelodau'r grŵp. Mae PG o'r farn y byddai ffigwr cydgysylltu allweddol ym mhob bwrdd iechyd yn helpu, ac yn awgrymu y dylid ystyried model yr Alban.

Mae EM yn gwahodd Andrea Davies (AD) i gyflwyno. Mae'n trafod ei rôl, gan sôn am bartneriaethau a chydweithrediadau a ddefnyddir i greu 'llwybrau drwodd i'r gymuned'. Mae'n edrych ar ddynodi rhai prosiectau yn 'wasanaethau'. Y syniad o 'gelfyddyd ar bresgripsiwn' - dryswch rhwng atgyfeirio a chyfeirio, ac anawsterau cysylltiedig. Gweithio gyda Phrifysgol Glyndŵr ar brosiect 3 blynedd ar gyfer myfyriwr PHD. Peryglon atgyfeirio heb arbenigedd. Cyfrifoldeb mawr felly mae hyfforddiant yn hanfodol. Mae'n trafod goblygiadau cost yr hyfforddiant hwn a sut y gellid mesur cymhwysedd. Mae EM yn cytuno ei bod yn gwneud synnwyr proffesiynoli'r dull gweithredu drwyddo draw.

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch yr ystod eang o weithgarwch a'r angen am artistiaid o’r safon uchaf. Sut y gallai artistiaid ymwneud orau â hyn? Mae aelod yn gofyn a yw rheoli drwy dargedu yn elfen sydd ar goll.

Nodir yr angen am ymrwymiad cadarn gan reolwyr cartrefi nyrsio, er enghraifft. **Mae EM yn cytuno bod angen inni ehangu ein ffocws gyda gofal i gynnwys cartrefi preifat, tai cymdeithasol yn ogystal â'r GIG.**

Mae Claire Cressey (CC) yn ychwanegu manylion am y prosiect Côr ym mhob Cartref Gofal gyda'r Gymdeithas Tai Fethodistaidd a'r cysylltiad â Fforwm Gofal Cymru. Mae aelod arall yn hysbysu'r grŵp am y Prosiect Cartrefi ac yn rhoi manylion yr arddangosfa yn Craft in the Bay.

Mae EM yn croesawu Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd Iechyd Cymru, ac yn cyflwyno gwaith y Grŵp Trawsbleidiol a'r hyn sydd wedi digwydd hyd yn hyn - mae'n nodi'r angen am ddull cydlynol o weithredu ac yn egluro'r tri phrif faes ffocws. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwneud ymdrech i ddatblygu cynllun ac ehangu'r gwaith celfyddyd ac iechyd. Mae'n disgrifio'r adolygiad sydd ar y gweill gan Gyngor y Celfyddydau, a'r ymateb gan sector y celfyddydau. Mae PG yn dweud y dylid cyfarfod â Chydffederasiwn y GIG i weld a allwn ni gael Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, fel Chwaraeon Cymru. Mae angen dull mwy cydlynus a thystiolaeth dda felly mae VG yn cytuno i ystyried y cais am gomisiynu darn o waith wedi'i ariannu'n rhesymol, ar raddfa briodol, yn ymwneud â chasglu a dadansoddi. **Mae'r grŵp yn gofyn am help VG i sefydlu 'dull Cymru gyfan'.**

Nodir gwerth cael cyfarfod gyda'r Cydffederasiwn. Mae VG yn manylu ar yr heriau a wynebir yn y maes hwn a meysydd ffocws gwahanol posibl, yn cynnwys gwaith mewn hosbisau. Mae EM yn codi mater safon artistiaid - a oes pwynt lle gallwn hyfforddi artist fel therapydd a bod hynny'n fwy buddiol na nyrs? Sylwadau gan VG.

**Mae EM yn diolch i VG ar ran y Grŵp a VG yn gadael. Croesewir Dai Lloyd, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd yn y Cynulliad, a rhoddir cyflwyniad Prue Thimbleby.**

Cymerodd EM a PG ran. Pedwar cyfnod preswyl - adrodd storïau - wedi'u hariannu gan Gyngor y Celfyddydau, yn arwain at gynhadledd. Disgrifir yr adborth cadarnhaol ers hynny. Nid yw'r rhaglen wedi'i chyfieithu i'r Gymraeg ond datblygwyd tudalen yn gwahodd y gynulleidfa i ddysgu Cymraeg a defnyddio'r eirfa hon. Mae EM yn diolch i PT ac yn bwydo yn ôl o'i phrofiad cadarnhaol ei hun o'r digwyddiad adrodd storïau.

EM yn diolch i Dai Lloyd (DL) am ymuno â'r Grŵp ac yn gofyn sut y gallai'r Grŵp weithio orau gyda'r pwyllgor.

Mae DL yn croesawu'r dull yn ei gyfanrwydd fel 'gofal cyfannol yn ei wir ystyr'. Mae'n trafod mater meddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi nyrsio / gofal preswyl a gwella gofal, nid yn unig rheoli trwy feddyginiaeth gref. Bydd y Pwyllgor Iechyd yn cynnal adolygiad o sut i gael gwared â meddyginiaeth wrth-seicotig drwyddi draw o'r boblogaeth. Mae DL yn gofyn am lythyr gan Gadeirydd y Grŵp hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd yn gofyn i'r pwyllgor ystyried adolygiad a rhoi'r mater ar ei agenda ac ar agenda'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

Mae EM yn dweud ei bod yn bwysig ehangu'r ymrwymiad yn awr. Diolchir i DL am ei gyfraniad.

**Cyngor y Celfyddydau i anfon y mapiau gweithgarwch cyfredol at y Pwyllgor a bydd hyn yn cael ei ddefnyddio yn y cais i'r Pwyllgor Iechyd.**

**Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu**

- **Mae'n bryd cysylltu ar y cyd (EM a PG) â'r Ysgrifennydd Iechyd ac Ysgrifennydd yr Economi ynghylch cyllido'r adroddiad arfaethedig hwn**
- **Llythyr ffurfiol i gael ei anfon fel y trafodwyd (EM)**
- **EM i siarad â Chydffederasiwn y GIG a'i wahodd i'r cyfarfod nesaf**
- **Trefnu digwyddiad ar y cyd â Grŵp Trawsbleidiol arall ar 21 Medi[ain] 2017 (EM i gysylltu) - o bosib gyda cherddoriaeth ac yna cyfarfod ar wahân o'r Grŵp**

- **Gwaith dilynol ar Adroddiad yr Arglwydd Alan Howarth ar 19eg Gorffennaf. Copïau PDF i gael eu hanfon at yr aelodau drwy e-bost**
- **Dogfennau gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn manylu ar y gweithgarwch cyfredol**
- **EM i ysgrifennu at Gadeiryddion Byrddau Iechyd unigol ar ran y Grŵp**
- **Gwahodd Fforwm Gofal Cymru i'r cyfarfod nesaf**
- **EM yn chwilio am astudiaethau achos, yn gwahodd cyfraniadau a chyflwyniadau ar gyfer y dyfodol os bydd amser yn caniatáu**
- **Cyswllt Gofal Cymdeithasol Cymru i gael ei anfon at EM**
- DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Medi 21ain 2017